**Grŵp Trawsbleidiol ar Siopau Bach: Dyfodol Ardrethi Busnes**

**Dydd Mercher 5 Mehefin 2019, 11:45 - 13:30: Ystafell Gynadledda C, Tŷ Hywel**

**COFNODION**

**YN BRESENNOL:**

| **Enw cyntaf** | **Cyfenw** | **Sefydliad** |
|---|---|---|
| Janet | Finch-Saunders | AC Ceidwadol Aberconwy |
| Vikki | Howells | AC Llafur Cwm Cynon |
| Huw | Irranca-Davies | AC Llafur Ogwr |
| Bethan | Sayed | Plaid Cymru Gorllewin De Cymru |
| Jayne | Cowan | Staff Cymorth Paul Davies AC Preseli Sir Benfro |
| Thomas | Wood | Asiantaeth y Swyddfa Brisio |
| Gordon | McKay | Asiantaeth y Swyddfa Brisio |
| Ben | Crudge | Llywodraeth Cymru |
| Alex | Harding | Llywodraeth Cymru |
| Steve | Dowling | Y Gymdeithas Siopau Cyfleustra |
| Edward | Woodall | Y Gymdeithas Siopau Cyfleustra |
| Mark | Coray | British Champion Hairdressing |
| Andrew | Goodacre | Cymdeithas Manwerthwyr Annibynnol Prydain |
| Robin | Osterley | Charity Retail Association |
| Kurt | Williams | DK Forecourts |
| Ben | Cottam | Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru |
| Matthew | Hunt | Archfarchnadoedd Filco |
| Mel | Griffin | Griffin Books |
| Justin | Horton | Funky Monkey Kidswear |
| Huw | Griffiths | Prif Orsaf Wasanaeth Llanilltud |
| Edward | Hiller | Ystadau Mostyn |
| Dev | Aswani | Ffederasiwn Cenedlaethol Manwerthwyr Papurau Newydd |
| Peter | Robinson | Ffederasiwn Cenedlaethol Manwerthwyr Papurau Newydd |
| Adrian | Roper | Ffederasiwn Cenedlaethol Manwerthwyr Papurau Newydd |
| Elgan | Morgan | Siambr Fasnach De Cymru |
| Munir | Ahmed | Spar Trecelyn |
| Chris | Sutton | Sutton Consulting |
| David | Chapman | Hospitality UK |
| Nick | Ireland | Usdaw |
| Jon | Rae | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Sara | Jones | Consortiwm Manwerthu Cymru |

1. **Croeso a chyflwyniadau**

Agorodd Janet Finch-Saunders AC y cyfarfod drwy groesawu cynrychiolwyr a disgrifio effaith ardrethi busnes ar siopau bach yn ei hetholaeth yn Aberconwy.

Amlinellodd Janet rôl y Grŵp Trawsbleidiol a thair thema'r agenda ar ardrethi busnes, sef; cefnogi gwasanaethau lleol, cymell buddsoddiad, a darparu atebion polisi sy'n gweithio i bawb. Croesawodd ehangiad cynllun Rhyddhad Ardrethi’r Stryd Fawr, cyn cyflwyno'r Gweinidog Rebecca Evans AC i siarad dros Lywodraeth Cymru.

2. **Rebecca Evans AC - y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**

Esboniodd y Gweinidog weithgarwch Llywodraeth Cymru hyd yma o ran ardrethi busnes; gan gynnwys ymestyn y cymhwysedd ar gyfer Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr, defnyddio Cyllideb Cymru i ariannu rhyddhad yn ôl disgresiwn ychwanegol o £2.4m ac ariannu cymorth pontio fel bod manwerthwyr yn elwa o werthoedd ardrethol is ar ddechrau'r rhestr ardrethu.

Wedyn, amlinellodd y Gweinidog sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi siopau bach drwy gefnogi'r ardaloedd lle maent yn masnachu drwy'r; Cynllun Benthyciadau Canol Trefi, y Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio a'r cyllid cychwyn busnes ar gyfer naw Ardal Gwella Busnes newydd.

Cafodd y Gweinidog ei holi gan Janet Finch-Saunders AC fel Cadeirydd. Pan ofynnwyd a yw'r egwyddor o niwtraliaeth ariannol yn rhwystr i ddiwygio ardrethi busnes, dywedodd y Gweinidog fod yn rhaid i unrhyw ddiwygio fod yn gydweithredol ac ystyried yr angen i ariannu gwasanaethau lleol. Galwodd y Gweinidog hefyd am i'r diwygio fod wedi'i dargedu ac iddo ystyried effaith net y system rhyddhad ar drethdalwyr busnes. Wedyn, gwahoddodd Janet Finch-Saunders AC gwestiynau gan y gynulleidfa.

3. **Y panel**

Gwahoddodd Janet Finch-Saunders AC y panel i gyflwyno eu hunain a rhoi datganiadau agoriadol. Y panelwyr oedd Edward Woodall, Sara Jones, Chris Sutton a Jon Rae.

Roedd Sara Jones yn croesawu cynnwys manwerthu yng Nghynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru a galwodd am weithredu ar ardrethi busnes i leihau'r lluosydd. Galwodd Edward Woodall ar wneuthurwyr polisi yng Nghymru i gymell buddsoddiad ac ystyried y Business Growth Accelerator yn yr Alban, cefnogi gwasanaethau lleol gan gynnwys peiriannau ATM a sicrhau bod pob trethdalwr yn talu ei gyfran deg o'r baich ardrethi.

Dywedodd Chris Sutton fod angen i Lywodraeth Cymru ystyried a ddylai polisi ardrethi busnes bwysleisio sicrhau incwm sefydlog neu gymell twf busnes. Dywedodd fod manwerthu yn fan cyfyng yn y system ardrethi busnes, a dyna pam y cyflwynwyd cynlluniau rhyddhad newydd. Dywedodd Jon Rae fod ardrethi busnes ar gyfer peiriannau ATM yn peri pryder ond bod cost rhyddhad i lywodraeth leol wedi cynyddu'n sylweddol. Mynegodd Jon ei fod yn cefnogi adolygiad canolog o'r system rhyddhad.

Trefnodd Janet Finch-Saunders AC sesiwn holi ac ateb o'r gynulleidfa i'r panel. Mynegodd y manwerthwyr a oedd yn bresennol bryderon am y bwlch rhwng cyhoeddiadau polisi ar ardrethi busnes a'u gweithredu ac anawsterau o ran lleihau cynnydd mewn biliau ardrethi o gategorïau sydd â strwythurau prisio pendant fel gwasanaethau Swyddfa'r Post a gwerthiant papurau newydd. Soniodd y cynrychiolwyr hefyd am bwysigrwydd Rhyddhad Siopau Elusen i'r stryd fawr a'r angen i gefnogi manwerthwyr lleol sy'n cefnogi cyflenwyr lleol ac economi gylchol.

4. **Sylwadau'r Cadeirydd i gloi**

Galwodd Janet Finch-Saunders AC ar Lywodraeth Cymru i wrando ar brofiadau manwerthwyr gyda'r system ardrethi busnes a sicrhau ei bod yn cymell twf busnes. Diolchodd i'r cynrychiolwyr a'r Gweinidog am ddod i'r cyfarfod a daeth â'r cyfarfod i ben.